

Pam y cawn ein gorchymyn i fynd?

“Ewch, gan hynny, a gwnewch ddisgyblion o’r holl genhedloedd, gan eu bedyddio hwy yn enw’r Tad a’r Mab a’r Ysbryd Glân.” (adn. 19)

Beth am ddarlenn Mathew 28:16–20 ac yna myfyrio

Ar yr olwg gyntaf, mae’r gorchymyn yma’n ymddangos yn ofnadwy o frawychus gan ei fod yn gosod tasg arswydus o’n blaenau. Ond, mewn gwirionedd, mae’n dweud mwy wrthym am Iesu a’i fawredd nag amdanom ni ein hunain a’n hanalluedd. Dylen ni gadw hynny mewn golwg wrth ganolbwyntio ar y cyfarwyddiadau rhyfeddol yma.

Dydy’r gorchymyn yma o eiddo Iesu ddim yn dweud dim am ein gallu i reoli’r byd, ond mae’n dweud popeth am ei awdurdod ef dros y byd. Dydy’r pwyslais ddim yn gymaint ar y mynd ond ar y gwneud: “ewch ... a gwnewch ddisgyblion.” Mae’r un gorchymyn yma (“gwnewch ddisgyblion o’r holl genhedloedd”) yn cael ei gefnogi gan dri gorchymyn arall sy’n egluro sut mae mynd o’i chwmpas hi (ewch ... bedyddio ... dysgu). Wrth gwrs, mae ‘mynd’ yn angenrheidiol. Ond pan fyddwn yn cychwyn cenhadu, mae’n rhaid i ni gofio ein bod yn mynd, nid i wneud Iesu’n Arglwydd, ond oherwydd mai ef ydy ein Harglwydd eisoes. Ac nid annog pobl i wneud penderfyniadau ydy nod cenhadu ond yn hytrach i ddod yn ddisgyblion – mewn geiriau eraill, trawsnewid pobl a fydd wedyn yn rhoi o’u bywydau i ddilyn Crist. Mae disgyblion yn cael eu gwneud drwy eu trochi drwy fedydd i fywyd a chariad cyflawn Duw y Drindod. Ac mae’r gwaith o’u gwneud yn ddisgyblion yn parhau drwy gyfarwyddyd ynglŷn â phopeth a ddywedodd ac a ddsygodd Iesu.

Dyma ‘reolau sefydlog’ yr Eglwys. Yr hyn sy’n bwysig i bobl Crist, sy’n addoli ond sy’n parhau i fod ag amheuan, ydy mawredd eu Meistr, nid maint y dasg. Mae’r ‘bob’ a’r ‘holl’ a geir yn yr adnodau hyn yn dweud cyfrolau: bob awdurdod, holl genhedloedd, holl orchmynion, bob amser.

Beth am fynd ymlaen i ddarlenn:

Gen. 12:1–3; Actau 2:42–47; 3:25–26; 18:7–8

Meddyliwch am y cwestiynau hyn:

1. Beth oedd addewid yr Arglwydd i Abraham?
2. I beth yr ymroddodd yr Eglwys Fore ei hun?

Gweddi

O Dad, helpa ni fel dy ddisgyblion i wneud mwy o ddisgyblion, a boed i’n bywydau ni ddangos ein bod yn ddisgyblion go iawn, gan na allwn dywys pobl ymlaen ymhellach nag yr ydyn ni wedi mynd ein hunain. Yn enw Iesu. Amen.